


ADRODDIAD CLWSTWR AR Y DIWYDIANNAU CREADIGOL RHIF 2

# SECTOR Y CYFRYNGAU YM MHRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD: GYRRU TWF ECONOMAIDD DRWY WEITHGAREDDAU CLYWELEDOL

Máté Miklós Fodor, Marlen Komorowski a Justin Lewis, Chwefror 2021

## GWYBODAETH AM YR ADRODDIAD

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o raglen Clwstwr, prosiect pum mlynedd sydd â'r nod o roi arloesedd wrth wraidd y broses o gynhyrchu cyfryngau yn ne Cymru, gan symud sector sgrin llewyrchus Caerdydd o gryfder at arweinyddiaeth. Mae Clwstwr yn awyddus i adeiladu ar lwyddiant de Cymru o ran creu cynnwys creadigol drwy roi ymchwil a datblygu wrth wraidd y broses gynhyrchu.

I gael rhagor o fanylion cysylltwch â:

CLWSTWR

Neuadd y Ddinas
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3ND
Ffôn: 02922 511434
Ebost: clwstwrcreadigol@caerdydd.ac.uk
Twitter: @ClwstwrCreu
www.clwstwr.org.uk

# CRYNODEB

MAE'R ADRODDIAD HWN YN DADANSODDI'N FANWL, AM Y TRO CYNTAF, FAINT, GRADDFA A CHYFRANIAD ECONOMAIDD SECTOR Y CYFRYNGAU YM MHRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD (CCR). MAE'N EDRYCH AR SECTOR Y CYFRYNGAU YM MHRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD YNG NGHYD-DESTUN Y DU AC YN RHYNGWLADOL, AC YN YSTYRIED STRATEGAETHAU AR GYFER CYNNAL LEFELAU TWF CRYF.

Mae Caerdydd bellach yn arwain clwstwr o ddinasoedd (Glasgow, Bryste, Southampton a Brighton) gyda niferoedd sylweddol o bobl yn cael eu cyflogi yn y sectorau darlledu lluniau a theledu. *Mae gan Gaerdydd, bellach, ar ôl Llundain Fwyaf a Manceinion, y trydydd clwstwr ffilm/teledu mwyaf yn y DU.* Mae wedi cyrraedd y safle hwn ar ôl degawd o dwf cadarn. Yn ôl llawer, clwstwr de Cymru fu'r clwstwr ym maes y cyfryngau sy'n perfformio orau yn y DU y tu allan i Lundain. O ran twf mewn cyflogaeth rhwng 2010 a 2018, perfformiodd Caerdydd ac Abertawe yn well na holl ddinasoedd eraill y DU y tu allan i Lundain a de Lloegr.

*Rhwng 2015 a 2018, roedd un o bob wyth swydd newydd ym maes y cyfryngau clyweledol a grëwyd yn y DU ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.* Os edrychwn ar dwf trosiant fesul gweithiwr yn y sectorau darlledu ffilmiau a rhaglenni teledu, Caerdydd yw'r perfformiwr cryfaf yn y DU, gyda thwf o flwyddyn i flwyddyn ar gyfartaledd o 15.4%.

Mae'r tueddiadau twf hyn yn golygu bod cyflogaeth yn sector y cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd bron wedi dyblu ers 2005. Mae *1,318 o gwmnïau'n weithredol yn sector y cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan greu cyfanswm trosiant blynyddol amcangyfrifedig o £545 miliwn.* Mae'r sector yn cyflogi 4,590 o weithwyr amser llawn yn lleol, ac rydym yn amcangyfrif bod 2,800 o weithwyr llawrydd yn gweithio yn y sector, gyda 2,898 o swyddi amser llawn pellach wedi'u creu i gefnogi sector y cyfryngau. At ei gilydd, mae hyn yn golygu bod *sector y cyfryngau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ymgysylltu â mwy na 10,000 o bobl.*

Mae ein dadansoddiad yn awgrymu bod sector y cyfryngau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cyfrannu tair gwaith cymaint i'r economi leol (£605 miliwn) na'i gwerth ychwanegol gros uniongyrchol (£199 miliwn). Cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu yw is-sector mwyaf deinamig y rhanbarth ym maes y cyfryngau, gyda'r cyfraniadau mwyaf i werth

ychwanegol gros, y gyfradd uchaf o werth ychwanegol gros fesul gweithiwr, a'r twf mwyaf deinamig mewn cwmnïau newydd. Rhwng 2005 a 2018, cynyddodd nifer y cwmnïau ym maes cynhyrchu ffilmiau/rhaglenni teledu 79%.

Ers 2012, er bod Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi rhagori ar y rhan fwyaf o ranbarthau eraill y DU o ran twf yng nghynhyrchiant y sector cynhyrchu ffilmiau a darlledu rhaglenni teledu, *mae bwlch o hyd o ran cynhyrchiant sylweddol yn sector y cyfryngau rhwng Llundain yn ogystal â gweddill y DU ac ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd – un y bydd angen i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd fynd i'r afael ag ef os yw am gael ei hadnabod ar lefel fyd-eang.*

I WNEUD HYN, MAE ANGEN I'R SECTOR HYRWYDDO SYNERGEDDAU SECTORAIDD A BUDDSODDI MEWN ARLOESEDD – YN ENWEDIG YN YR OES AR ÔL COVID – GAN FOD CYSYLLTIAD AGOS RHWNG YMCHWIL A DATBLYGU AC ARLOESEDD Â THWF CYNHYRCHIANT. BYDD MANTEISION HYN YN SYLWEDDOL. PE BAI PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD YN GALLU CYFATEB Â THWF CYNHYRCHIANT CYFARTALOG Y DU, RYDYM YN AMCANGYFRIF Y BYDDAI HYN YN CREU £255 MILIWN YN YCHWANEGOL O'R TROSIANT A GYNHYRCHIR A £236 MILIWN YN YCHWANEGOL O WERTH YCHWANEGOL GROS UNIONGYRCHOL AC ANUNIONGYRCHOL. BYDDAI CYNNYDD MEWN CYNHYRCHIANT YN UNIG YN CREU 7,720 O SWYDDI NEWYDD YM MHRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD

## YMADAWIAD: COVID-19

Casglwyd y data ar gyfer yr adroddiad hwn cyn pandemig COVID-19. Mae'n cyfleu darlun o sector y cyfryngau clyweledol yng Nghymru cyn ansicrwydd COVID-19, sydd wedi cael effaith fawr ar lawer o fusnesau a gweithwyr llawrydd creadigol, y mae llawer ohonynt yn wynebu colledion sylweddol mewn refeniw. Mae'r adroddiad hwn yn darparu llinell sylfaen a fydd yn ein galluogi i gynnal asesiadau manwl yn y dyfodol o effaith COVID-19 ar y cwmnïau perthnasol yn y tymor canolig a'r tymor hwy.

# Cynnwys


Cynnwys ..................... 4

Cyflwyniad ..................... 5

Hybu twf: Sector y cyfryngau clyweledol yn rhyngwladol ac yn y DU ..........5

Safle Prifddinas-Ranbarth Caerdydd mewn marchnad cyfryngau fyd-eang 6

Methodoleg ..................... 8

Data .....................8

Maint a chwmpas yr ymchwil ..................... 9

Rhan 1: Ffigurau allweddol.....................10

Sector y cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.........10

Twf yng nghyd-destun y DU ..................... 12

Rhan 2: Cyfraniad i'r economi leol.....................19

Creu gwerth uniongyrchol ac anuniongyrchol sector y cyfryngau clyweledol lleol ..................... 19

Creu cyflogaeth anuniongyrchol .....................20

Cyfraniadau is-sectoraidd i werth ychwanegol gros a dynameg mynediad cadarn.....................22

Rhan 3: Sector y cyfryngau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd: quo vadis ..................... 26

Cynhyrchiant fel peiriant twf.....................26

Taflwybrau twf posib .....................29

Casgliad ..................... 35

Atodiad: Dull a chyfyngiadau methodolegol .....................41

Casglu data..................... 41

Cysoni data.....................42

Methodolegau amcangyfrif .....................42

Cyfyngiadau methodolegol.....................45

# Cyflwyniad

## Hybu twf: Sector y cyfryngau clyweledol yn rhyngwladol ac yn y DU

Mae'r sectorau teledu a ffilm byd-eang yn cyfrif am oddeutu $540 biliwn o refeniw blynyddol, gyda $140 biliwn yn mynd tuag at gynhyrchu cynnwys newydd ar draws teledu a ffilm bob blwyddyn.[1] Mae gan y sector gyfradd twf uwch na'r cyffredin, ac *mae'n debygol o ddod yn gyfrannwr pwysicach fyth at economïau lleol a chyflogaeth*. Amcangyfrifodd PwC fod gan refeniw'r sector adloniant a'r cyfryngau byd-eang dwf cadarn o flwyddyn i flwyddyn ar gyfartaledd yn 2019.[2] *Mae'r sector clyweledol byd-eang wedi'i glystyru'n fawr mewn crynodiadau lleol penodol mewn hybiau cynhyrchu rhanbarthol*. *Mae'r DU yn un o'r chwe chynhyrchydd ffilmiau pwysicaf yn y byd* (yn dilyn India, UDA, Japan, Tsieina yn nifer y prif ffilmiau a gynhyrchir bob blwyddyn).[3] Y DU hefyd yw'r farchnad glyweledol fwyaf yn Ewrop, o ran refeniw a Gwerth Ychwanegol Gros (GVA), gyda'r gwerth ychwanegol gros 20% yn fwy na'r Almaen a 50% yn fwy na Ffrainc.[4]

*Roedd y gwariant ar gynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu o safon uchel yn y DU yr uchaf a gofnodwyd erioed yn 2019, sef £3.62 biliwn ($4.7 biliwn), cynnydd o 16%, yn* ôl ffigurau Sefydliad Ffilm Prydain. Cafodd y twf ei yrru gan lefelau uchel o fuddsoddiad cynhyrchu rhyngwladol yn y DU, a oedd yn uwch na £3 biliwn ($3.9 biliwn) am y tro cyntaf yn 2019.[5] Mae sector y cyfryngau clyweledol yn rhan o'r *sector creadigol ehangach yn y DU, sy'n tyfu pum gwaith cyfradd yr economi ehangach, gan gyflogi mwy na 2 filiwn o bobl, a chyfrannu £111.7 biliwn* – mwy na'r sectorau modurol, awyrofod, y gwyddorau bywyd a diwydiannau olew a nwy wedi'u cyfuno (data o 2019).[6]

---

[1] Gweler https://www.mpa-emea.org/wp-content/uploads/2018/09/OO-UK-AV-sector-economic-contribution-report-FINAL-2018.09.21.pdf
[2] https://www.pwc.com/gx/en/industries/tmt/media/outlook/segment-findings.html
[3] Gweler https://unesdoc.unesco.org/ark:/48223/pf0000217137
[4] Gweler https://www.mpa-emea.org/wp-content/uploads/2018/09/OO-UK-AV-sector-economic-contribution-report-FINAL-2018.09.21.pdf
[5] Gweler https://variety.com/2020/film/global/film-high-end-tv-production-in-the-uk-rises-16-to-hit-record-4-7-million-1203486610/
[6] Gweler https://www.ukscreenalliance.co.uk/news/creative-industries-projected-to-be-hit-twice-as-hard-as-wider-economy-by-drop-in-revenue-due-to-pandemic/

Yn ôl astudiaeth gan economegwyr annibynnol Oliver & Ohlbaum Associates yn 2018, amcangyfrifwyd bod cyfraniad gwerth ychwanegol y sector clyweledol i economi'r DU yn tyfu ar gyfradd o 5% i 8% y flwyddyn, gyda chyflogaeth yn tyfu ar lefelau tebyg.[7] Mae hyn yn awgrymu y *gall* y *DU wella ei safle fel hyb rhyngwladol blaenllaw ar gyfer y sector clyweledol yn y degawd nesaf*. Mae twf yn y dyfodol yn seiliedig ar y canlynol:

- marchnad ryngwladol sy'n tyfu ar gyfer cynnwys y cyfryngau – gyda'r twf blynyddol a ragwelir mewn gwariant byd-eang o 5-6% yn y pum mlynedd nesaf – wedi'i wthio gan y galw am gynnwys o safon uchel, diwydiant gemau cynyddol, teledu gwe, OTT SVoD, a sianeli teledu premiwm (e.e. Netflix, Amazon);
- twf uwch na'r cyffredin ym marchnad cyfryngau'r DU, y mwyaf yn Ewrop; a;
- gwarged masnach cynyddol o'r farchnad glyweledol yn y DU (£1.1 biliwn yn 2012 i £1.9 biliwn yn 2016).

## Safle Prifddinas-Ranbarth Caerdydd mewn marchnad cyfryngau fyd-eang

Ar ôl degawdau o ddirywiad diwydiannol, mae *Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) yn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig y DU*: Mae 24% yn ennill yn is na'r Cyflog Byw[8], gyda mwyafrif y cymunedau wedi'u nodi ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. 80% (y pen) o werth ychwanegol gros cyfartalog y pen y DU yn unig mae'r rhanbarth yn ei gynhyrchu. [9] Ar yr un pryd, mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi dod yn sbardun allweddol i economi Cymru, gyda 49% o gyflogaeth Cymru ac mae'n cynhyrchu 48% o'i gynnyrch domestig gros (GDP).[10]

---

[7] Gweler https://www.coba.org.uk/coba_latest/report-av-sector-could-lead-the-world/
[8] Gweler http://www.cynnalcymru.com/the-local-living-wage-dividend-report/
[9] Gweler https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation
[10] Rydym yn amcangyfrif mai cyfanswm y gyflogaeth ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd oedd 1,071,000 o bobl yn 2018. Cyfanswm y gyflogaeth yng Nghymru oedd 2,121,000. Mae hyn yn seiliedig ar ystadegau poblogaeth y SYG (gweler https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/regionaleconomicactivitybygrossdomesticproductuk/1998to2018) ac ar gyfraddau cyflogaeth o 69.9% a gyhoeddwyd gan Gyngor

Un o'r rhesymau yw *cynnydd mewn gweithgareddau'r diwydiant creadigol yng Nghaerdydd – mae 16.5% o'i busnesau bellach yn fentrau creadigol* (sydd yn uwch o lawer na chyfartaledd y DU o 11%).[11] Mae'r diwydiannau creadigol lleol yn cael eu gyrru gan glwstwr ffilm a theledu sy'n datblygu ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, sydd wedi cael cydnabyddiaeth gynyddol yn y DU a chan lywodraethau lleol. Yn 2017, *nododd Adolygiad Bazalgette Caerdydd fel un o ganolfannau cynhyrchu cyfryngau mwyaf y DU*.[12]

Awgrymodd data gan Lywodraeth Cymru fod *y gwerth ychwanegol gros o gynhyrchu ffilmiau, fideos a rhaglenni teledu yng Nghymru wedi cynyddu 334%* rhwng 2006 a 2016.[13] Mae'r rhanbarth wedi cynhyrchu nifer o gynyrchiadau ffilm a theledu diweddar nodedig, gan gynnwys Doctor Who, Sherlock, Keeping Faith, Hinterland, Hidden, A Discovery of Witches, His Dark Materials a Sex Education, yn ogystal â chyfresi teledu enwog fel Casualty (BBC1 ), Only Connect (BBC2), a Find It, Fix It, Flog It (Channel 4).

NOD YR ADRODDIAD HWN YW CYNNIG CIPOLWG MANWL AR FAINT, CYFANSODDIAD A STRWYTHUR SECTOR Y CYFRYNGAU CLYWELEDOL YM MHRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD (CCR). GAN DDEFNYDDIO DATA MICRO-FUSNES O FAME (GWELER Y FETHODOLEG), RYDYM YN ARCHWILIO NEWIDYNNAU ECONOMAIDD ALLWEDDOL (RHAN 1), CYFRANIAD ECONOMAIDD UNIONGYRCHOL AC ANUNIONGYRCHOL Y SECTOR (RHAN 2), AC YN CEISIO AMCANGYFRIF POTENSIAL O RAN

---

Caerdydd (gweler https: // www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Have-your-say/Ask%20Cardiff%20Library/The%20Cardiff%20Economy%20and%20Labour%20Market_Apr%2017_Mar%2018.pdf ). Wrth gynnwys hunangyflogaeth mewn cymarebau cyfanswm cyflogaeth, fel yr adroddwyd gan NOMIS (gweler https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157397/report.aspx) dawn i'r casgliad yr oedd 149,500 yn hunangyflogedig a 921,500 yn weithwyr yn y sector preifat neu'r sector cyhoeddus o'r 1,071,000 o bobl mewn cyflogaeth ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn 2018. Rydym wedi sicrhau cyfanswm ystadegau cynnyrch domestig gros ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chymru gan y SYG, sydd ar gael yn https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/regionaleconomicactivitybygrossdomesticproductuk/1998to2018. Yn ôl y ffigurau hyn, roedd cyfanswm y cynnyrch domestig gros ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd oddeutu £38 biliwn ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn 2018, ac oddeutu £73 biliwn yn y wlad gyfan.

[11] Gweler https://clwstwr.org.uk/sites/default/files/2020-05/Creative%20Industries%20Report%20No%201_Final_compressed.pdf

[12] Gweler https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/649980/Independent_Review_of_the_Creative_Industries.pdf

[13] Gweler https://seneddresearch.blog/2018/06/14/film-and-major-television-production-is-the-welsh-government-doing-enough-to-grow-the-domestic-screen-industry/

TWF SECTOR Y CYFRYNGAU CLYWELEDOL LLEOL (RHAN 3) . YN OLAF, RYDYM YN YMCHWILIO I'R CYFLEOEDD A'R HERIAU SY'N WYNEBU SECTOR Y CYFRYNGAU YM MHRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD, A SUT Y GALL ELWA ORAU AR Y TUEDDIADAU TWF RHYNGWLADOL (CASGLIAD).

Dyma'r cwestiynau y mae'r adroddiad hwn yn anelu at eu hateb:

- Sut olwg sydd ar sector y cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd heddiw?
- Pa botensial o ran twf sy'n bodoli?
- A all economi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fod ar ei hennill drwy fuddsoddiad a chefnogaeth i'r sector?

# Methodoleg

## Data

Mae'r astudiaeth hon yn seiliedig ar wybodaeth am 165,176 o endidau busnes a dynnwyd oddi ar FAME (cronfa ddata ar gwmnïau yn y DU a gyhoeddwyd gan Bureau van Dijk yn seiliedig ar ddata Tŷ'r Cwmnïau). Cyfoethogwyd y data gydag ystadegau am y sector o adnoddau cyhoeddus. Gwnaethom lanhau a chysoni'r data, gan ddileu gwallau. Oherwydd yr oedi o ran amser wrth gasglu data, mae'r rhan fwyaf o ddata cyfredol yn adlewyrchu amcangyfrifon ar gyfer 2018.

*I gael rhagor o wybodaeth am y fethodoleg a'r broses lanhau a chysoni data, gweler yr Atodiad.*

YMWADIAD

Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn gyffredinol a'r effaith economaidd yw'r canfyddiadau. Gwnaethom ddefnyddio dull methodolegol pwyllog, gan gyflwyno rhifau yn hytrach yn y pen isaf gan ystyried cyfyngiadau data (a data adroddiadau eraill yr adroddwyd amdanynt). Mae'r data wedi'i lanhau â llaw, a'i wirio yn erbyn mewnbwn arbenigol i adlewyrchu sector y cyfryngau clyweledol orau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

## Maint a chwmpas yr ymchwil

Mae'r gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n cynrychioli'r 10 awdurdod lleol yn ne-ddwyrain Cymru (Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd a Chaerdydd).

Mae'r astudiaeth yn canolbwyntio ar sector y cyfryngau (yn benodol y sector clyweledol), yn seiliedig ar *ddiffiniad* yr *Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) o'r sector clyweledol*, wedi'i ategu â'r sector rhaglennu a dosbarthu meddalwedd adloniant (y sector gemau fideo).[14] Mae'r rhestr lawn o'r codau SIC a ddefnyddir fel a ganlyn:

- ✓ 59.11 - Gweithgareddau cynhyrchu ffilmiau, fideos a rhaglenni teledu
- ✓ 59.12 - Gweithgareddau ôl-gynhyrchu ffilmiau, fideos a rhaglenni teledu
- ✓ 59.13 - Gweithgareddau dosbarthu ffilmiau, fideos a rhaglenni teledu
- ✓ 59.2 - Gweithgareddau recordio sain a chyhoeddi cerddoriaeth
- ✓ 60.1 - Darlledu radio
- ✓ 60.2 - Gweithgareddau rhaglennu a darlledu teledu
- ✓ 63.91 - Gweithgareddau asiantaethau newyddion
- ✓ 63.99 - Gweithgareddau gwasanaethau gwybodaeth eraill n.e.c.
- ✓ 77.22 - Rhentu tapiau fideo a disgiau
- ✓ 77.4 - Prydlesu eiddo deallusol a chynhyrchion tebyg, ac eithrio gweithiau hawlfraint
- ✓ 58.21 - Cyhoeddi gemau cyfrifiadurol
- ✓ 62.01/1 - Datblygu meddalwedd hamdden ac adloniant rhyngweithiol parod

Rydym yn defnyddio'r term sector y cyfryngau clyweledol (neu sector y 'cyfryngau' llaw-fer) i ddisgrifio'r busnesau hyn, yn ogystal â chanolbwyntio ar y rhai a nodir fwyaf amlwg â'r gwaith o gynhyrchu ffilmiau/rhaglenni teledu (ar wahân i godau SIC ar gyfer ffilmiau a rhaglenni teledu). Yn aml, ystyrir bod sector y cyfryngau yn ehangach na hyn, gan ei fod yn rhan o'r diwydiant creadigol ehangach a'r sectorau digidol. Rydym yn ystyried hyn yn ein dadansoddiad lle bo hynny'n briodol.

[14] Gweler https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/829114/DCMS_Sectors_Economic_Estimates_-_Methodology.pdf

# Rhan 1: Ffigurau allweddol

## Sector y cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd

**> 1,300** o gwmnïau ym maes y cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn cynhyrchu

**£545 miliwn** sef cyfanswm y trosiant blynyddol, gyda throsiant pellach o

**£606 miliwn** mewn gwerth ychwanegol gros a gynhyrchir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol;

**> 10,000** o bobl yn gweithio'n uniongyrchol/anuniongyrchol yn y sector, gyda


**> 4,500** o bobl wedi'u cyflogi'n amser llawn gan y sector.

Mae sector y cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi dod yn rhan anhepgor o'r economi leol. *Yn 2005, ymgysylltodd ag oddeutu 2,600 o weithwyr amser llawn, ffigur sydd bron wedi dyblu dros y 10 mlynedd diwethaf i tua 4,500*. Mae perfformiad y sector yn adlewyrchu symudiad strwythurol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd tuag at economi sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Yn ôl ein data, mae *1,318 o gwmnïau'n weithredol yn sector y cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd*. Gyda'i gilydd, cynhyrchodd y cwmnïau hyn *gyfanswm trosiant blynyddol amcangyfrifedig o £545 miliwn*. Mae'r sector yn cyflogi *4,590 o weithwyr amser llawn yn* lleol, ac rydym yn amcangyfrif bod *2,800 o weithwyr llawrydd yn gweithio yn y sector hefyd.*[15] Mae sector y cyfryngau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn uniongyrchol gyfrifol am gynnal *2,898 o swyddi amser llawn ychwanegol* yn yr economi leol. Dyma weithwyr i'w chyflenwyr uniongyrchol (a drafodir ymhellach yn yr adran sy'n ymwneud ag effaith economaidd leol). At ei gilydd, mae hyn yn

[15] Mae ein hamcangyfrif yn seiliedig ar ystadegau swyddogol Eurostat ar gyflogaeth ddiwylliannol. Gweler https://ec.europa.eu/eurostat/statistics-explained/index.php?title=Culture_statistics_-_cultural_employment#Self-employment i gael mwy o fanylion. Wrth gyfrifo nifer y gweithwyr llawrydd ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, gwnaethom ddefnyddio cyfartaledd cyflogaeth gweithwyr llawrydd yn sector diwylliannol y DU. Mae hyn yn cynrychioli 32% o'r holl bobl sy'n ymwneud â'r sector.

golygu bod *sector y cyfryngau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ymgysylltu â mwy na 10,000 o bobl.* Yn ôl ystadegau cyflogaeth swyddogol, mae hyn yn cyfrif am *un ym mhob 143 o weithwyr Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac un ym mhob 28 o weithwyr llawrydd*.[16]




**Ffigur 1: Cyfraniad lleol sector y cyfryngau clyweledol i werth ychwanegol gros a chyflogaeth ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.**


Mae amcangyfrif ceidwadol o'r gwerth ychwanegol gros (gwerth ychwanegol gros) yn dangos bod y *sector yn cynhyrchu £199,240,000 yn uniongyrchol* . Rydym yn amcangyfrif bod cynhyrchiad gwerth ychwanegol gros anuniongyrchol – trwy warged a gynhyrchwyd gan gyflenwyr a

[16] Rydym yn amcangyfrif mai cyfanswm y gyflogaeth ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd oedd 1,071,000 o bobl yn 2018. Mae hyn yn seiliedig ar ystadegau poblogaeth y SYG (gweler https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/regionaleconomicactivitybygrossdomesticproductuk/1998to2018) ac ar gyfraddau cyflogaeth o 69.9% a gyhoeddwyd gan Gyngor Caerdydd (gweler https: // www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Have-your-say/Ask%20Cardiff%20Library/The%20Cardiff%20Economy%20and%20Labour%20Market_Apr%2017_Mar%2018.pdf ). Wrth gynnwys hunangyflogaeth mewn cymarebau cyfanswm cyflogaeth ar gyfer Caerdydd, fel yr adroddwyd gan NOMIS (gweler [16]https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157397/report.aspx) dawn i'r casgliad yr oedd 149,500 yn hunangyflogedig a 921,500 yn weithwyr yn y sector preifat neu'r sector cyhoeddus o'r 1,071,000 o bobl mewn cyflogaeth ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn 2018.

chwsmeriaid lleol uniongyrchol sector y cyfryngau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd – yn gyfanswm o £406,774,000, gan ddod â *chyfanswm cyfraniad gwerth ychwanegol gros i £606,014,000* (rydym yn trafod hyn ymhellach yn fanwl yn yr adran effaith economaidd leol isod). Yn seiliedig ar ystadegau sydd ar gael i'r cyhoedd, rydym yn amcangyfrif bod sector y cyfryngau clyweledol yn cynhyrchu *1.6% o gyfanswm gwerth ychwanegol gros Prifddinas-Ranbarth Caerdydd* ac yn cynnwys *1% o gyfanswm ei phoblogaeth mewn cyflogaeth* (gweler Ffigur 1 uchod).[17]

## Twf yng nghyd-destun y DU

Mae sector y cyfryngau clyweledol yn amlwg iawn ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, ond gallai ei dwf o ran cyflogaeth a throsiant, o'i gymharu â chyfartaledd y DU, fod yn gryfach. Rhwng 2010 a 2018, *tyfodd cyflogaeth yn sector y cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd 12%*, sy'n is na chyfartaledd y DU o 20%. Tyfodd trosiant ar gyfradd o 23%, ond mae hyn yn sylweddol y tu ôl i dwf y DU o 66% (gweler Ffigur 2).




**Ffigur 2: Cymhariaeth o gyfanswm trosiant a thwf cyflogaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn sector y cyfryngau â chyfraddau twf cenedlaethol.**

Mewn termau cymharol, mae'r twf mewn cyflogaeth, ar gyfradd o 60% o gyfartaledd y DU, yn sylweddol gryfach na'r twf mewn trosiant (dim ond 35%

[17]Rydym wedi sicrhau cyfanswm ystadegau cynnyrch domestig gros ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd Chymru gan y SYG, sydd ar gael yn https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/regionaleconomicactivitybygrossdomesticproductuk/1998to2018. Yn ôl y ffigurau hyn, roedd cyfanswm y cynnyrch domestig gros ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd oddeutu £38 biliwn yn 2018.

o gyfartaledd y DU). *Mae hyn yn awgrymu bod lle i wella yn sector y cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd o ran cynhyrchiant llafur* (yn aml o ganlyniad i ddiffyg galluoedd i fuddsoddi ac arloesi yn y diwydiant). Mae angen ystyried y bwlch hwn yng nghyd-destun gwahaniaethau sylweddol rhwng Llundain a de-ddwyrain Lloegr a gweddill y DU. Rydym yn archwilio hyn yn fanylach yn y dadansoddiad isod. Fel y *dangoswn*, *Prifddinas-Ranbarth Caerdydd mewn gwirionedd yw un o'r sectorau ym maes y cyfryngau sy'n perfformio gryfaf y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr*: bydd ei gallu i gau'r bwlch ymhellach fyth yn allweddol i'w llwyddiant.

Ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae Caerdydd yn sbardun clir i dwf y sector, gyda llawer o weithgareddau'r sector wedi'i glystyru ym mhrifddinas Cymru. Ar gyfer astudiaeth gymharol ar lefel dinas o berfformiad Caerdydd, rydym yn canolbwyntio ar y gyrwyr gwerth ychwanegol mwyaf yn sector y cyfryngau clyweledol: cynhyrchu ffilmiau a darlledu rhaglenni teledu. Fel y dengys yn Ffigur 11 yn yr adran nesaf, *mae'r is-sectorau hyn yn cynhyrchu mwy na 70% o gyfanswm gwerth ychwanegol gros y cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.*

Er mwyn cymharu dinasoedd â'i gilydd, gwnaethom gadw ardal côd post y ddinas ar wahân i weddill Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (rydym yn gwneud yr un peth â phob dinas arall yn yr astudiaeth hon). Rydym wedi echdynnu'r 20 dinas/rhanbarth mwyaf arwyddocaol o set ddata FAME, yn seiliedig ar nifer y gweithwyr sy'n gweithio yn yr is-adran ganlynol, sy'n cynnwys gweithgareddau yn y sectorau darlledu ffilmiau a rhaglenni teledu:

- ✓ 59.11 - Gweithgareddau cynhyrchu ffilmiau, fideos a rhaglenni teledu
- ✓ 59.12 - Gweithgareddau ôl-gynhyrchu ffilmiau, fideos a rhaglenni teledu
- ✓ 59.13 - Gweithgareddau dosbarthu ffilmiau, fideos a rhaglenni teledu
- ✓ 60.2 - Gweithgareddau rhaglennu a darlledu teledu

Mae Tabl 1 yn datgelu tri phwynt allweddol. Yn gyntaf, mae'r tabl yn dangos, er gwaethaf ymdrechion i symud cynhyrchiad cyfryngau y tu allan i Lundain Fwyaf, (Llundain, Slough a Heathrow), *mae cyflogaeth a throsiant y cyfryngau yn parhau i fod wedi'u crynhoi'n fawr ym mhrifddinas y DU*, sy'n cyflogi 67.31% o'r holl weithwyr yn y diwydiant ac yn cynhyrchu 88.99% o'r holl drosiant. Dim ond cyfran fach o gyfanswm gweithlu'r diwydiant (15.01%) sydd gan y 18 dinas gryfaf nesaf gyda'i gilydd, a ffracsiwn llai fyth o'i throsiant (6.72%).

Yn ail, mae cyfraddau trosiant fesul gweithiwr yn llawer uwch yn Llundain Fwyaf nag mewn mannau eraill. O ystyried crynodiad sectoraidd yn y brifddinas, mae hyn yn golygu, o ran cynhyrchiant, y bydd pobman y tu allan


i Lundain yn perfformio'n wael yn erbyn cyfartaledd y DU. Mae agosrwydd at Lundain yn amlwg yn ffactor yma, gyda Reading a Southampton hefyd yn perfformio'n dda. *Mae dwy o'r dinasoedd sy'n perfformio orau ar y mesur hwn y tu allan i Lundain a de Lloegr yn ne Cymru (mae Abertawe yn bumed a Chaerdydd yn seithfed).*


| **Lleoliad daearyddol** | **Gweithwyr amser llawn** | **Trosiant (£ mewn miloedd)** | **Trosiant fesul gweithiwr (£)** |
|---|---|---|---|
| Llundain | 110880 | 37270785 | 336136 |
| Slough a Heathrow | 51700 | 24308527 | 470184 |
| Manceinion | 7090 | 913784 | 128884 |
| **Caerdydd** | **3005** | **398917** | **132751** |
| Glasgow | 2966 | 366663 | 123622 |
| Bryste | 2926 | 226219 | 77313 |
| Southampton | 2870 | 746341 | 260049 |
| Brighton | 2631 | 154299 | 58647 |
| Guildford ac Aldershot | 1809 | 226602 | 125264 |
| Reading | 1744 | 496881 | 284909 |
| Birmingham | 1629 | 87720 | 53849 |
| Belfast | 1597 | 107892 | 67559 |
| Abertawe | 1478 | 362322 | 245144 |
| Sheffield | 1387 | 75606 | 54511 |
| Watford | 1371 | 160701 | 117214 |
| Caeredin | 920 | 62125 | 67528 |
| Leeds | 920 | 50256 | 54626 |
| Stockport | 761 | 53795 | 70689 |
| Plymouth | 581 | 62282 | 107198 |
| Caergrawnt | 576 | 99045 | 171953 |

**Tabl 1: Y prif glystyrau ffilmiau a darlledu yn y DU.**

Yn drydydd, nodwn mai'r tair dinas orau ar gyfer cyflogaeth yn y sectorau darlledu ffilmiau a rhaglenni teledu yw, yn nhrefn eu maint, Llundain Fwyaf, Manceinion a Chaerdydd. Mae Caerdydd bellach yn arwain grŵp o ddinasoedd (Glasgow, Bryste, Southampton a Brighton) yn hyn o beth.

Mae Ffigur 3 isod yn dangos bod *de Cymru ar drywydd cryf ar i fyny, gyda Chaerdydd ac Abertawe â thwf cyflogaeth cryf*. Dros y cyfnod rhwng 2010 a 2018, daeth Abertawe yn ail a Chaerdydd yn chweched, gan berfformio'n well na holl ddinasoedd eraill y DU y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr (yr un eithriad yw Stockport, ger Manceinion, sydd ag oddeutu'r un gyfradd twf â Chaerdydd ond chwarter y maint o ran cyflogaeth).





**Ffigur 3: Cyfraddau twf mewn cyflogaeth a throsiant yn y sectorau darlledu ffilmiau a rhaglenni teledu rhwng 2010 a 2018.**

O ran twf trosiant, mae Caerdydd ac Abertawe ychydig yn llai cryf (yn y seithfed ac wythfed safle). Yn yr achos hwn, er bod y rhan fwyaf o'r dinasoedd sy'n perfformio'n gryfach, unwaith eto, yn ne-ddwyrain Lloegr (Slough a Heathrow, Reading, Guildford ac Aldershot), maent yn cynnwys Sheffield, Glasgow, a Stockport. Yn ddiddorol, dim ond safle 11 yw Llundain yn ôl y mesur hwn.


Os edrychwn ar dwf trosiant fesul gweithiwr, *Caerdydd yw'r perfformiwr cryfaf yn y DU, gyda thwf o flwyddyn i flwyddyn ar gyfartaledd o 15.4% yn y sectorau darlledu ffilmiau a rhaglenni teledu*, (gweler Ffigur 4 isod), gydag Abertawe yn y pedwerydd safle. Dim ond Reading sy'n dod yn agos at gyfradd twf Caerdydd, sydd bron dair gwaith cyfradd Llundain (pumed safle yn gyffredinol).




**Ffigur 4: Cyfraddau twf cyfartalog ar lefel dinas a rhanbarth flwyddyn ar ôl blwyddyn fesul gweithiwr yn y sectorau ffilm a darlledu rhaglenni teledu rhwng 2010 a 2018.**

Mae cysondeb y twf cynyddrannol hwn flwyddyn ar ôl blwyddyn y tu ôl i ymddangosiad Caerdydd (ac Abertawe cyfagos) fel canolbwynt ar gyfer cynhyrchu ffilmiau/rhaglenni teledu yn y DU. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi dod yn ganolbwynt ar gyfer twf cyflogaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan ddenu *un ym mhob wyth swydd ym maes y*

*cyfryngau clyweledol newydd a grëwyd*[18] yn y DU rhwng 2015 a 2018 (gweler Ffigur 5) – rhyfeddol o ystyried bod cyflogaeth gyffredinol yn y sectorau yn Llundain Fwyaf 50 gwaith yn fwy.




**Ffigur 5: Cyfran Prifddinas-Ranbarth Caerdydd o greu cyflogaeth net yn y DU (2015-2018).**

[18] Mae'r ffigurau'n cyfeirio at greu swyddi net, h.y canlyniad tynnu cyflogaeth sydd wedi dod i ben o gyfanswm y gyflogaeth.

## Rhan 1: Crynodeb


Mae Caerdydd, gyda dros degawd o dwf aruthrol, wedi dod yn un o ganolfannau mwyaf llwyddiannus y DU ar gyfer cynhyrchu'r cyfryngau. Mae'n un o'r clystyrau mwyaf yn y DU bellach ar gyfer cynhyrchu ffilmiau/rhaglenni teledu y tu allan i Lundain Fwyaf, gydag un o bob wyth swydd yn y sector hwn yn y DU wedi'i greu ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r cyfraddau cyflymaf diweddar mewn twf cyflogaeth a chynhyrchiant yn y DU wedi ychwanegu at hyn.

## Goblygiadau

Bydd cynyddu cynhyrchiant a chyflymder y twf yn hanfodol i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd sicrhau dylanwad a chyrhaeddiad byd-eang.

## Creu gwerth uniongyrchol ac anuniongyrchol sector y cyfryngau clyweledol lleol

Cynhyrchodd sector y cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd *gwerth ychwanegol gros o £199,244,000 yn uniongyrchol* (gweler yr Atodiad am ddisgrifiad manwl o gyfrifiadau gwerth ychwanegol gros). Fel y dangoswn yn Rhan 1, mae'r cyfartaledd hwn yn cael ei ystumio gan grynodiad sectoraidd yn Llundain Fwyaf. O ganlyniad, er gwaethaf y twf yn sector y cyfryngau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, fel y dengys Ffigur 6, mae'r twf yn y gwerth ychwanegol gros yn parhau i fod yn llawer is na chyfartaledd y DU.




**Ffigur 6: Twf gwerth ychwanegol gros ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd ac yn y DU yn sector y cyfryngau rhwng 2010 a 2018, yn ôl prisiau ar hyn o bryd.**

Mae'n arfer safonol yn y llenyddiaeth ystyried creu gwerth anuniongyrchol hefyd, sydd ar ddwy ffurf.[19] Ar un llaw, mae *effeithiau gorlifo anuniongyrchol* yn mynd drwy'r economi drwy gyflenwyr sector y cyfryngau clyweledol. Mae

[19] Gweler, er enghraifft, adroddiad y SSE ar gyfrifo cyfraniad economaidd tyrbinau gwynt ar y môr, sydd ar gael yn: https://www.sse.com/media/afebwv0g/10_years_of_wind_economic_contribution_methodology.pdf

hyn yn cynnwys y gwerth ychwanegol y mae cyflenwyr uniongyrchol yn ei gynhyrchu wrth ddarparu mewnbwn hanfodol i sector y cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Yr ail effaith yw'r effaith ysgogedig honedig. Mae hyn yn cynnwys y gwerth ychwanegol y mae'r mewnbynnau sy'n angenrheidiol i gynhyrchu'r nwyddau a'r gwasanaethau y mae gweithwyr sector y cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd neu rai ei gyflenwyr yn eu defnyddio (gweler yr atodiad i gael disgrifiad manwl o sut yr amcangyfrifwyd gwerth anuniongyrchol).[20]

Yn seiliedig ar ein data, rydym yn amcangyfrif bod *gwerth ychwanegol gros anuniongyrchol sector y cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn £406,774,000*. Mae'r amcangyfrif hwn yn unol â'r rheol gyffredinol yn y llenyddiaeth i raddau helaeth, sy'n awgrymu bod gwerth ychwanegol gros anuniongyrchol o leiaf ddwywaith cymaint â gwerth ychwanegol gros uniongyrchol, a hyd yn oed yn fwy na gwerth ychwanegol gros uniongyrchol yn sector y cyfryngau clyweledol.[21] Mae hyn yn golygu y gallwn amcangyfrif bod cyfanswm y *gwerth ychwanegol gros a gynhyrchir gan sector y cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd oddeutu £605,000,000, y mae £199,000,000 ohono'n uniongyrchol a £406,000,000 yn werth ychwanegol gros anuniongyrchol*.

Mae'n bwysig nodi ar y gyffordd hon nad yw'r gwerth ychwanegol gros anuniongyrchol hwn yn meintioli'r holl fuddion y mae sector y cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn eu cynnig yn lleol. Ceir trosglwyddiadau llai mesuradwy sydd, yn enwedig i sector y mae ei allbynnau'n rhan o'r dychymyg poblogaidd: dinasoedd y cyfryngau – yn enwedig y rhai sy'n cael eu hystyried yn arloesol – yn denu buddsoddiad a thwristiaeth.[22]

## Creu cyflogaeth anuniongyrchol


Mae effeithiau anuniongyrchol ac ysgogedig gwerth ychwanegol gros yn y bôn yn creu cyflogaeth ychwanegol. Roedd cyfanswm costau mewnbwn

[20] Ffynhonnell: https://www.wifor.com/uploads/2019/02/WifOR_Novartis_Case_Study_Global_Economic_Impact.pdf
[21] Gweler, er enghraifft, https://www.mpa-emea.org/wp-content/uploads/2018/09/OO-UK-AV-sector-economic-contribution-report-FINAL-2018.09.21.pdf
[22] Gweler, er enghraifft ,https://blog.bham.ac.uk/cityredi/what-is-gross-value-added-gva/

uniongyrchol sector y  cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd oddeutu £406,000,000. Cynhyrchir y trosiant hwn gan lu o sectorau, fel y nodir gan y SYG.[23] O ystyried trosiant busnes cyfartalog Cymru gan weithiwr amser llawn, a oedd yn gyfanswm o £41,743 yn 2018,[24] byddai'n cymryd tua 9,726 o weithwyr amser llawn i gynhyrchu'r trosiant hwn (pe baent i gyd yn weithwyr o Gymru). Serch hynny, yn debyg iawn i amcangyfrif gwerth ychwanegol gros anuniongyrchol, rydym yn cymryd yn geidwadol bod y sector y cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cyrchu 20% yn unig o fewnbynnau cynhyrchu lleol. Mae hyn yn arwain at 1,945 o swyddi amser llawn ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd a gynhelir yn anuniongyrchol gan sector y cyfryngau clyweledol.

Yn yr un modd, mae'n cymryd 4,767 o weithwyr amser llawn i gynhyrchu segment iawndal incwm cartref trosiant sector y cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, sef £199,000,000 (gwerth ychwanegol gros uniongyrchol). Mae hyn yn cyfateb i 953 o weithwyr amser llawn lleol mewn sectorau amrywiol. Mae hyn yn awgrymu bod sectorau'r cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn *cynnal 2,898 o swyddi amser llawn yn ychwanegol at y gweithwyr a'r gweithwyr llawrydd y mae'n eu cyflogi'n uniongyrchol.* Rydym yn crynhoi ein canfyddiadau yn Ffigur 7.

[23] Gweler https://www.ons.gov.uk/economy/nationalaccounts/supplyandusetables/datasets/ukinputoutputanalyticaltablesdetailed. Gan nad oes gennym amcangyfrifon ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd nac amcangyfrifon cenedlaethol, rydym yn cymryd cyfartaleddau'r DU fel seiliau ein hamcangyfrifon.
[24] Cyfrifir y ffigur hwn ar sail ystadegau cyflogaeth Cymru (cyfanswm cyflogaeth yng Nghymru) a chyfanswm trosiant busnes yng Nghymru. Ffynonellau: GOV.UK: Amcangyfrifon poblogaeth busnes 2019, Cymru, tabl 21 a https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157397/report.aspx




**Ffigur 7: Nifer bras y swyddi ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ôl sector a fyddai'n ddiangen pe bai gweithgarwch ym maes y cyfryngau clyweledol yn dod i ben dros nos. Mae canrannau'r mewnbynnau a gynhyrchir ar gyfer sector y cyfryngau yn seiliedig ar fatricsau mewnbwn-allbwn y SYG.**


## Cyfraniadau is-sectoraidd i werth ychwanegol gros a dynameg mynediad cadarn

Cryfder penodol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yw cynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu. *Mae traean o'r holl werth ychwanegol gros ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael ei gynhyrchu drwy gynhyrchu ffilmiau, fideos a rhaglenni teledu, ôl-gynhyrchu a dosbarthu*. Mae hyn, fodd bynnag, yn is na chyfartaledd y DU o hyd, sef 42%.[25] Serch hynny, os bydd y patrymau twf yn y sector yn parhau, bydd hyn yn newid yn gyflym a bydd pwysigrwydd cymharol ffilmiau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn goddiweddyd ei gyffredinrwydd yng ngweddill y DU.

Rydym yn dangos y cyfraniadau is-sectoraidd i werth ychwanegol gros yn Ffigur 8 isod. *Y cyfranwyr mwyaf o* bell *ffordd yw dau o ysgogwyr allweddol y*


[25] Yn ôl data FAME.

*rhanbarth (fel y'u sefydlwyd yn yr adran olaf), sef darlledu ar gyfer y teledu a chynhyrchu ac ôl-gynhyrchu ffilmiau/rhaglenni teledu.*




**Ffigur 8: Cyfranddaliadau gwerth ychwanegol gros is-sectorau amrywiol yn sector y cyfryngau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Y ffigurau uchod yw'r cyfranddaliadau yng nghyfanswm y gwerth ychwanegol gros a gynhyrchwyd yn y rhanbarth rhwng 2005 a 2018.**

Mae'r canlyniadau hyn yn rhan o broses arbenigo. O ganlyniad, ac fel y dengys Ffigur 9, *mae nifer y cwmnïau ym maes cynhyrchu ffilmiau/rhaglenni teledu wedi cynyddu 79% rhwng 2005 a 2018.* Mae is-sectorau eraill, fodd bynnag, yn enwedig gwasanaethau TG a gwybodaeth wedi crebachu o ran maint yn y rhanbarth.




**Ffigur 9: Twf yn nifer y cwmnïau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd rhwng 2005 a 2018.**

## Rhan 2: Crynodeb

Mae sector y cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cyfrannu tair gwaith cymaint i'r economi leol (£605 miliwn) na'i gwerth ychwanegol gros uniongyrchol (£199 miliwn). Darlledu ar y teledu a chynhyrchu ffilmiau yw, unwaith eto, is-sectorau mwyaf deinamig y rhanbarth, gyda'r cyfraniadau mwyaf i werth ychwanegol gros, y gyfradd uchaf o werth ychwanegol gros fesul gweithiwr, a'r twf mwyaf deinamig mewn cwmnïau newydd.

## Goblygiadau


Mae twf gwerth ychwanegol gros cyffredinol yn isel. Mae hyn yn awgrymu problem bosibl o ran cynhyrchiant. O ystyried y cwmpas ar gyfer hunan-atgyfnerthu twf, byddai cynlluniau cymorth sy'n gwella cynhyrchiant yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer twf gwerth ychwanegol gros yn lleol.


# Rhan 3: Sector y cyfryngau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd: quo vadis

## Cynhyrchiant fel peiriant twf

Hyd yn hyn, rydym wedi dangos sut mae degawd o dwf yn sector y cyfryngau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi galluogi'r rhanbarth i ddod i'r amlwg fel arweinydd yn y DU, yn enwedig ym maes cynhyrchu rhaglenni teledu a ffilmiau. Mae twf cyflogaeth wedi bod yn arbennig o gryf, ac mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd bellach yn cyflogi mwy o bobl yn y sector hwn nag unrhyw le y tu allan i Lundain Fwyaf neu Fanceinion. Mae hyn ochr yn ochr â thwf sylweddol mewn cynhyrchiant, gyda Chaerdydd yn dangos y gyfradd twf trosiant uchaf fesul gweithiwr yn y DU. Er gwaethaf y twf hwn, fel y dengys Ffigur 10, *mae sector y cyfryngau clyweledol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gyffredinol yn parhau y tu ôl i gyfartaledd y DU o ran cynhyrchiant.*

*Fel y dangoswn yn Rhan 1, mae hyn yn adlewyrchu bwlch sylweddol rhwng Llundain a de-ddwyrain Lloegr a gweddill y DU.* Mae twf rhyfeddol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi golygu roedd y rhaniad yn gymesur uwch yn 2005 nag y mae ar hyn o bryd (data 2018), gan awgrymu *bod y bwlch, ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd o leiaf, yn dechrau culhau. At hynny, fel y dangoswn yn ail banel Ffigur 10, ers 2012, mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi rhagori ar weddill y DU y tu allan i ardal Llundain Fwyaf.*




**Ffigur 10: Cyfraddau twf trosiant fesul cyfradd gweithiwr yn sector y cyfryngau clyweledol. Nodyn: Mae'r llinell doredig borffor yn dangos y pwynt amser y gwnaethom ddechrau, gan gynnwys trosiant a niferoedd gweithwyr BBC Cymru a S4C yn ein set ddata. Mae'r naid gyflym mewn trosiant fesul gweithiwr oherwydd hyn. Yn anad dim, mae'r gostyngiad sydyn yn 2011 i'w briodoli i gynnydd o 15% yn nifer y gweithwyr y flwyddyn honno, gyda gostyngiad bach yng nghyfanswm y trosiant.**

